Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yn Y Ganolfan Abergynolwyn, Nos Lun 8fed Ebrill 2019 am 7 o'r gloch.

Presennol: Cadeirydd Elwyn Evans, Is Gadeirydd Steve Lewis, Robert Jones, Miriam Webb, Cynghorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad H.E. Thompson (llawdriniaeth), Dylan Jarman, Eleri Puw (Wyna)Wendy Whitby,(sâl)

Datgan Diddordeb: dim

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans.

1. Derbyniwyd cofnodion Mawrth a llofnodwyd gan y Gadeirydd Elwyn Evans.
2. Cae Chwarae: Yr oedd Cyng Steve Lewis ac Emrys Thompson wedi trafod. Adroddodd Cyng. Steve Lewis mae'r cynnig gorau oedd defnyddio G L Jones Bethesda gan ein bod yn eu adnabod ac wedi ein cefnogi dros y blynyddoedd. Yr oedd tri pris i law a phasiwyd mae un G L Jones oedd yr un i gael cyfarfod ar y safle.
3. Toiledau Cyhoeddus: Trafodwyd cadw llygad ar y toiledau gan ein bod yn talu am gofal yr haf. Diolch i'r Cynghorydd Miriam Webb am gynnig.
4. Cyng. S. Lewis: Adroddodd ei fod wedi cael cynnig un set o arwyddion yn dangos 30mya a llun camera yw osod yn ymyl yr Eglwys, hefyd yr oedd wedi holi am arwydd i dynnu sylw mynedfa Tanyfedw. Diolch .
5. Cyng. Gwynedd: Adroddodd bod newidiadau ynglyn a Gofal Cartref, gweld sut bydd un tim yn gweithio mewn un lle.Diolch Cyng. Lawton.
6. Rheoli Data: Dal i aros am gwrs wrth law.
7. Ciosgs: Adroddwyd bod Minffordd yn gweithio ond nid Caerberllan.
8. Rheolau Ariannol: Dymunem ddiolch i'n Cadeirydd Elwyn Evans am baratoi y Rheolau Ariannol.
9. Ysiwriant: Trafodwyd a phasiwyd i dalu yr Ysiwriant blynyddol.
10. Adroddiad Trysorydd: Derbyniwyd copiau hyd 31/03/19 yn dangos crynodeb y ffigyrau. Nid oedd un adran wedi gorwario. Yr oedd rhai adrannau heb eu gwario gan nad oedd gwaith wedi ei wneud ac nid oedd anfoneb wedi ei dderbyn. Diolch i'r Is Gadeirydd Steve Lewis am fynd drwy'r anfonebau, sieciau a datganiad banc a'i goruwchwilio.
11. Nodwyd bod baw cwn yn dal yn broblem, ac mi oedd y Cyng. Robert Jones wedi trafod cyflwr y ffordd o groesffordd Caerberllan i fyny am Cartref Mari Jones. Diolch iddo.

Taliadau: Zurich Municipial Ysiwriant 316.97 siec 960

Cartref Mari Jones:

Casglwyd £8.97 o'r blwch. Y lle yn edrych yn daclus